**Date**/Dyddiad Awst 2019
**Ask for**/Gofynwch am
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 700111
**Fax**/Ffacs
**e-mail**/e-bost C1V@valeofglamorgan.gov.uk

**The Vale of Glamorgan Council**
The Alps, Wenvoe CF5 6AA

**Cyngor Bro Morgannwg**
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA

www.valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

Annwyl Breswylydd,

**Newidiadau pwysig i'ch casgliadau ailgylchu**

Llynedd, fe gyflwynon ni gyfyngiad dau fag du ar gyfer gwastraff y cartref ym Mro Morgannwg. Ers hynny, rydyn ni wedi cynyddu'n cyfraddau ailgylchu, ac mae gwastraff biniau du wedi lleihau gan ryw 30%. Diolch am eich ymdrechion.

Y cam nesaf yn y newidiadau i'r gwasanaeth fydd rhoi'r gorau i ddefnyddio bagiau plastig defnydd untro i gynnwys deunyddiau ailgylchu i'w casglu. **Mae hyn yn golygu na fyddwn bellach yn derbyn deunyddiau ailgylchu mewn bagiau siopa plastig na sachau gwyn, clir neu liwiog.**

Bydd dileu bagiau plastig defnydd untro o'n hailgylchu'n gwella ansawdd y deunyddiau ailgylchu ac yn gwneud ein casgliadau ailgylchu'n fwy cynaliadwy. Bydd yn sicrhau bod deunyddiau rydyn ni'n eu casglu'n cael eu hailgylchu mewn ffordd foesegol ac yn lleihau faint o ddeunyddiau sy'n cael eu hanfon allan o'r DU.

Er bod y cyfyngiad ar fagiau du wedi bod yn llwyddiannus iawn, mae cynnydd wedi bod mewn ailgylchu sydd wedi ei lygru – gyda bwyd, cewynnau a thecstilau wedi eu cuddio mewn bagiau plastig untro. Mae hyn wedi golygu bod llawer o'n hailgylchu'n cael ei wrthod.

Mae staff casglu'r Cyngor wedi cael eu cyfarwyddo i gasglu deunyddiau ailgylchu ddim ond pan fyddant wedi eu cyflwyno mewn bagiau neu focsys mae'r Cyngor wedi eu darparu. Bydd hyn ar waith **o ddydd Llun 19 Awst 2019**. Mae modd i chi gasglu bag neu focs ychwanegol o'ch llyfrgell leol, y Swyddfeydd Dinesig (yn ystod mis Awst 2019), y Barri, CF63 4RU neu Ddepo'r Alpau, Gwenfô, CF5 6AA.

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei hanfon maes o law o ran y cam nesaf yn y newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a gwastraff. Diolch am barhau i fod o gymorth i wasanaethau ailgylchu Bro Morgannwg.

Yn gywir,

Colin Smith
Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cymdogaeth (Gweithrediadau)